Taflen Ffeithiau'r Arolygiaeth Gynllunio (Cymru)

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion ynghylch yr Arolygiaeth Gynllunio (Cymru). Dylid ei darllen ar y cyd â'n taflen wybodaeth gyffredinol ynghylch ein gwasanaeth.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio (Cymru) yn un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cymru. Ei phrif waith yw prosesu apeliadau cynllunio a gorfodi a chynnal ymchwiliadau i gynlluniau datblygu lleol.

Mae hefyd yn delio ag ystod eang o waith arall sy'n ymwneud â chynllunio, gan gynnwys:

- apeliadau caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig;
- apeliadau hysbysebu; ac,
- adrodd ar geisiadau cynllunio y bydd Llywodraeth Cymru yn eu galw i mewn.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio (Cymru) hefyd yn delio ag apeliadau amgylcheddol ac achosion hawliau tramwy.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Mae'r Ombwdsmon yn gallu edrych ar gwynion am:

- weinyddu gwael neu ddiffygion gweithdrefnol ym mhenderfyniadau'r Arolygiaeth Gynllunio;

- diffygion yn y ffordd mae'r Arolygiaeth Gynllunio (Cymru) wedi delio â'ch cwynion, er enghraifft os yw wedi methu ymateb neu os nad yw wedi delio â'ch cwyn o fewn cyfnod rhesymol.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni all yr Ombwdsmon:

- ystyried rhinweddau penderfyniadau'r Arolygiaeth Gynllunio (Cymru), gan gynnwys ei phenderfyniadau ar apeliadau cynllunio a phenderfyniadau apeliadau gorfodi. Dim ond drwy'r llysoedd mae modd herio'r rhain.

Materion i gadw mewn cof

Nid yw cwynion am benderfyniadau cynllunio unigol sydd wedi cael eu gwneud gan Gynghorau lleol yng Nghymru yn faterion i'r Arolygiaeth Gynllunio. Dylid cyfeirio'r cwynion hyn at y Cyngor dan sylw yn y lle cyntaf a gallai fod yn fater i'r Ombwdsmon.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein Taflen Wybodaeth am Geisiadau Cynllunio. Mae hon ar gael ar y wefan, mae'r cyfeiriad isod.

Gwybodaeth bellach

Mae rhagor o wybodaeth am yr Arolygiaeth Gynllunio (Cymru), gan gynnwys eu trefn gwyno, ar gael ar y wefan:

www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/index_e.htm

Mae cyngor cyffredinol ar bob agwedd ar gynllunio defnydd tir yng Nghymru ar gael gan Cymorth Cynllunio Cymru. Caiff yr wybodaeth hon ei darparu am ddim. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cymorth Cynllunio Cymru:

www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Nid oes angen i chi wneud eich cwyn i'r Ombwdsmon gan ddefnyddio cyfreithiwr neu unrhyw adfocad arall; mae ei wasanaeth yn rhad ac am ddim ac yn ddiduedd, a'n nod yw gwneud y broses mor hawdd â phosibl i bobl ei dilyn.

Ni all yr Ombwdsmon orchymyn bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu ar ei argymhellion – ond, yn ymarferol, maent yn gwneud hynny bron bob tro. Mae enghreifftiau o achosion yr edrychwyd arnynt gan yr Ombwdsmon i'w gweld ar ein gwefan.

www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ